



Polisi Addysg Rhyw

CREWYD

CREWYD GAN

CADARNHAWYD GAN Y CORFF LLYWODRAETHOL

DYDDIAD ADOLYGU

09/2016

R Jenkins

20/9/2016

09/2019

POLISI ADDYSG RHYW

CYFLWYNIAD

Mae'r polisi a'r cynllun gwaith yn ffurfio rhan o ymrwymiad yr ysgol i ABCh ac yn dangos ein hymrwymiad fel Ysgol Iach. Lluniwyd y polisi a'r cynllun gwaith yn unol â'r Ddeddf Addysg (1998), Cylchlythyr Canllaw Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn Ysgolion Rhif 019/2010 (2010), Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer plant 7-19 oed yng Nghymru (2008), Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol Cymru 2010-2015 a Strategaeth a Chynllun Gweithredu Iechyd Rhywiol Ceredigion (2007).

Cytunwn â'r gosodiad:

'Mae Addysg Rhyw priodol a chyfrifol yn elfen bwysig yng ngwaith ysgolion wrth baratoi disgyblion ar gyfer bywyd fel oedolion.' (Addysg Rhyw mewn Ysgolion)

Mae gan bob disgybl yn Ysgol Dyffryn Teifi yr hawl i dderbyn cwricwlwm eang a chytbwys sydd:

1. yn rhoi cyfleoedd i bawb ddysgu a chyflawni;
2. yn hybu eu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol ac yn eu paratoi at y cyfleoedd, y cyfrifoldebau a'r profiadau a ddaw ym mywyd oedolion

AMCANION

Caiff ARhPh yn Ysgol Dyffryn Teifi ei addysgu yng nghyd-destun Fframwaith ABCh Cymru a'r amcanion penodol yn yr ysgol fydd:

'cynorthwyo a chefnogi disgyblion drwy eu datblygiad corfforol, emosiynol a chymdeithasol' (Cylchlythyr LICC rhif 019/2010)

Credwn fod ARhPh yn hanfodol er mwyn i bobl ifanc allu gwneud penderfyniadau synhwyrol a chytbwys am eu bywydau ac rydym hefyd yn cadarnhau'r canlynol:

'Dylai ARhPh alluogi dysgwyr i ddeall pwysigrwydd amgylchedd sefydlog, cadarn a chariadus ar gyfer bywyd teuluol a natur priodas a'i phwysigrwydd i fywyd teuluol a magu plant' (Cylchlythyr LICC rhif 019/2010)

Prif amcanion y rhaglen i gyflwyno addysg rhyw yw:

- Cyflwyno gwybodaeth mewn dull gwrthrychol a chytbwys
- Rhoi gwybodaeth o'r hyn sy'n gyfreithlon a'r hyn nad sy'n gyfreithlon
- Sicrhau fframwaith moesol sy'n annog disgyblion i ystyried hunan ddisgyblaeth, urddas a hunan barch

Pam y dylid dysgu Addysg Rhyw?

- Mae gan ddisgyblion yr 'hawl i wybod' o oed cynnar
- Mae disgyblion eisoes yn ymwybodol o faterion yn ymwneud â rhyw
- Mae angen i ddisgyblion gael gwybodaeth fanwl a phriodol
- Mae gofyn i ddisgyblion fod yn barod i wynebu pwysau'r byd cyfoes – rhai emosiynol, corfforol a chymdeithasol
- Trwy addysgu gallwn alluogi disgyblion i ddatblygu yn oedolion cyfrifol

Nodau

- datblygu hyder a pharch at eu hunain ac yn eu perthnasoedd ag eraill
- deall pwysigrwydd perthnasoedd sefydlog, cadarn a chariadus
- datblygu agwedd gyfrifol at berthnasoedd rhywiol
- deall y gyfraith ynghylch ymddygiad rhywiol
- cydnabod canlyniadau a risgiau gweithgarwch rhywiol, gan gynnwys beichiogrwydd heb ei gynllunio a heintiau a drosglwyddir yn rhywiol (STIs)
- deall y cysylltiadau ag ymddygiadau eraill sy'n golygu cymryd risg, gan gynnwys y risgiau posibl sydd ynghlwm wrth rwydweithio cymdeithasol
- cydnabod dylanwadau diwylliannol a chymdeithasol a gwrthod pwysau digroeso
- mynd i'r afael yn hyderus â'u hunaniaeth rywiol sy'n dod i'r amlwg
- gwybod am dulliau atal cenhedlu a sut i gael gafael arnynt a dulliau atal STIs
- deall cyfrifoldebau bod yn rhiant
- gwybod sut i gael gwybodaeth gyson a phriodol am iechyd a lles rhywiol gan amrywiaeth o asiantaethau

Canllaw ar Faterion Sensitif

Fel yn achos pynciau sensitif eraill, ni ddylai athrawon gynnig cyfrinachedd i ddisgyblion, ac ni ddylid chwaith ddisgwyl iddynt siarad am eu profiadau personol neu eu diffyg profiad. **Ni ddylai athrawon, o dan unrhyw amgylchiadau, gyfaddef iddynt wneud unrhyw beth anghyfreithlon, faint bynnag o amser a aeth heibio ers hynny.**

Bydd athrawon yn ateb cwestiynau'r disgyblion yn agored ac yn onest gan dalu sylw priodol i aeddfedrwydd a dealltwriaeth y disgyblion dan sylw. Ni ellir ystyried gwybodaeth a gwyd o drafodaethau yn gyfrinachol gan y gallai fod yn rhaid i athrawon weithredu i amddiffyn disgyblion rhag niwed drwy gynnwys neu hysbysu oedolion eraill fel rhieni neu'r heddlu.

CYNNWYS Y CWRS

Er mwyn cael syniad o gynnwys y cwrs, dylid cyfeirio at y cynlluniau gwaith ac at y rhestr o gyfraniadau gan siaradwyr allanol.

CYFRINACHEDD AC AMDDIFFYN PLANT

Hysbysir yr athrawon a'r disgyblion na all rhai mathau o wybodaeth gael eu cadw yn gyfrinachol a dyma'r achos bob amser lle y gallai cadw rhywbeth yn gyfrinachol beri niwed i'r disgybl neu i berson arall. Os bydd disgybl yn datgelu unrhyw beth a allai gyfeirio at gam-drin o natur rywiol neu ryw natur arall, rhaid fydd dilyn gweithdrefn Amddiffyn Plant yr ysgol. Bydd hyn o anghenraid yn golygu dweud wrth oedolion eraill. Bydd angen i athrawon egluro hyn wrth y disgyblion mewn ffordd sensitif. Y rheol yn syml yw: peidiwch byth ag addo cyfrinachedd.

Os nad yw'r mater yn ymwneud ag amddiffyn plant ond bod angen rhoi'r wybodaeth i rywun arall er lles y plentyn, bydd yr athro dan sylw yn trafod gyda'r disgybl yn gyntaf wrth bwy i ddweud a beth allai ddigwydd o ganlyniad i hynny. Lle bynnag y bo'n bosibl, caiff disgyblion eu hannog i geisio cymorth eu rhieni yn gyntaf.

Dylid atgoffa pob athro bod ganddynt ddyletswydd i ddilyn Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan/protocol AALI Ceredigion os oes amheuaeth bod plentyn neu berson ifanc wedi dioddef o niwed sylweddol neu mewn perygl o ddioddef felly.

TREFNIADAU A MATERION YMARFEROL

- Mae disgyblion yr ysgol yn derbyn Addysg Rhyw ar gyfnodau penodedig
- Dysgir gwersi Addysg Rhyw o fewn dosbarthiadau cofrestru gyda'r Tiwtoriaid Dosbarth (fel arfer)
- Defnyddir staff arbenigol o'r tu allan i'r ysgol yn ogystal â staff penodedig o fewn yr ysgol
- Mae croeso i rieni wneud apwyntiad i ddod i'r ysgol i ddarllen y polisi Addysg Rhyw a hynny yn ystod oriau ysgol
- Paratowyd llyfrynnau posibl i bob blwyddyn

CYNGOR ATHRAWON

Dylai athrawon wahaniaethu rhwng cynnig addysg yn gyffredinol ar faterion yn ymwneud â rhyw ar y naill law a rhoi cyngor penodol i ddisgybl ar y llaw arall

Nid yw'n rhan o gyfrifoldebau proffesiynol athro i roi cyngor i ddisgybl unigol ar fater rhyw. Pan fo'r disgybl yn mynd at athro am gyngor personol ar fater rhyw, dylai'r athro gynghori'r disgybl i fynd at ei rieni neu at feddyg teulu a all roi cyngor yn gyfrinachol

Os cyfyd sefyllfa o'r fath yna mater o farn broffesiynol yr athro yw a ddylid rhoi gwybod i rieni'r disgybl, aelod o'r UDRh neu asiantaeth allanol.